Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu am y**

**Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

**Y Cefndir**

Ar gais Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trafododd y Pwyllgor Menter a Dysgu ddeiseb yn ymwneud â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, sydd wedi'i geirio fel a ganlyn:

"Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod bod pobl ifanc dros 16 oed yn cael eu hystyried i fod yn oedolion gan eu rhieni, ac felly ni ddylid ystyried incwm eu rhieni wrth asesu cymhwyster ar gyfer Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Dylid ei seilio ar incwm unigolyn."

Catrin Anne Davies o Dreffynnon, Sir y Fflint gyflwynodd y ddeiseb ac fe'i llofnodwyd gan 272 o bobl (mewn un diwrnod). Mae ymateb y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deisebau ynghlwm yn Atodiad 1.

Roedd trafodaeth y Pwyllgor Menter y Dysgu hefyd yn dilyn cais gan Andrew RT Davies AC (a oedd, bryd hynny, yn aelod o'r Pwyllgor ) am sesiwn graffu gyda'r Gweinidog i drafod pam na chafodd rhai myfyrwyr eu taliadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg mewn da bryd.

Ar 30 Ebrill 2009, mewn gwrandawiad ffurfiol yn y Senedd, buom yn holi'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am bolisi Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Mae memorandwm ysgrifenedig y Gweinidog ynghlwm yn Atodiad 2.

Clywsom yn gyntaf gan y prif ddeisebwr a chan gynrychiolwyr fforwm, y corff cenedlaethol sy'n cynrychioli sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae tystiolaeth ysgrifenedig fforwm hefyd ynghlwm yn Atodiad 2; mae'r linc i'r trawsgrifiad o'r dystiolaeth lafar wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

Hoffem ddiolch i'r holl dystion am ein cynorthwyo gyda'r ymchwiliad. Credwn fod system ddeisebu'r Cynulliad Cenedlaethol a chyfarfodydd craffu'r Pwyllgor yn gyfle pwysig i bobl Cymru leisio barn ac mae hynny, yn ei dro, yn galluogi'r Cynulliad i gyfrannu at ei nod o annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd - yn enwedig pobl ifanc. Hoffem gofnodi'n bod yn gwerthfawrogi tystiolaeth y prif ddeisebwr yn benodol ac yn diolch iddi am ddyfal barhau â'r broses ddeisebu.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn yn crynhoi'r prif faterion ac yn cynnig argymhellion a fydd, os cânt eu derbyn gan Weinidogion Cymru, o fudd i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Y Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

Cyflwynwyd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru yn 2004. Bwriadwyd i'r cynllun gyfrannu'n sylweddol at yr ymdrech i ehangu mynediad at addysg bellach drwy annog rhagor o bobl ifanc o deuluoedd sydd ar incwm isel i aros yn yr ysgol neu i fynd i'r coleg.

Cyflwynwyd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn raddol dros gyfnod o dair blynedd, gan gynnwys myfyrwyr 16 oed yn 2004; myfyrwyr 16 ac 17 oed yn 2005; a myfyrwyr 16, 17 ac 18 oed yn 2006.

O dan y cynllun, gall dysgwyr rhwng 16 ac 18 oed hawlio taliadau o £10, £20 neu £30 yr wythnos yn ystod y tymor, yn ôl incwm y teulu. Mae taliadau bonws ychwanegol o £100 hefyd ar gael iddynt os ydynt yn cyrraedd targedau penodol yn ymwneud â chynnydd ac ymddygiad.

Cymeradwywyd lwfansau i dros 133,000 o bobl ifanc ers 2004.

Mae'r ffigurau'n dangos bod y rhan fwyaf o wariant Cynhaliaeth Addysg yn cael ei gyfeirio at y rheini o'r teuluoedd tlotaf.

Clywsom fod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad myfyrwyr: yn achos Coleg Sir Gâr, gwelwyd cynnydd o chwech y cant mewn presenoldeb ac yn nifer y myfyrwyr a oedd yn cwblhau cyrsiau.

**Achos y deisebwr**

Gan mai system sy'n seiliedig ar brawf modd yw hon, roedd yn anochel y byddwn yn clywed am densiynau rhwng y rheini a lwyddodd i gael y Lwfans a'r rheini na lwyddodd. Yn achos rhai o'r bobl ifanc nad ydynt yn gymwys i gael y Lwfans, bydd eu rhieni weithiau'n dewis peidio â chynnal eu plant yn ariannol. Clywsom gan y prif ddeisebwr sut y bu'n rhaid iddi hi, fel llawer o bobl ifanc eraill yn ei choleg, gael hyd i swydd yn ogystal ag astudio'n llawn amser. Yn ei hachos hi, roedd ganddi ddwy swydd, a oedd yn golygu ei bod yn gweithio 40 awr yr wythnos i dalu ei rhent gartref, ei biliau ffôn a chostau rhedeg car.

Ei dadl hi, felly, oedd y dylid seilio'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar ei hincwm hi'n hytrach nag incwm ei rhieni.

Trafodwyd y syniad hwn gyda thystion eraill. Yn ôl fforwm, pe bai myfyrwyr yn cael eu hystyried yn 'oedolion' pan fyddent yn troi'n 16 oed, a phe bai'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn seiliedig ar brawf modd ar eu hincwm nhw'u hunain, byddai pob person ifanc, mwy na heb, yn gymwys i gael y Lwfans llawn o £30 yr wythnos, a byddai hynny'n costio £57 miliwn y flwyddyn. Byddai ehangu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg i fod yn fudd-dal cyffredinol yn creu system fiwrocrataidd a fyddai'n anodd ei rheoli. A bwrw mai swm cyfyngedig o arian sydd ar gael (£27.9 miliwn ar hyn o bryd) byddai'r taliad ar gyfartaledd yn gostwng yn sylweddol i £13 yr wythnos yn unig. Byddai'n golygu y byddai llawer o fyfyrwyr anghenus o gartrefi tlawd yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i gael cymorth ariannol llawn. Mae fforwm, felly, yn credu y dylid cyfeirio'r Lwfans at y myfyrwyr mwyaf anghenus, cyhyd ag y bo modd.

Ar hyn o bryd, mae 89 y cant o fyfyrwyr yn cael £30, a dadleuent y byddai gostwng y swm hwn yn cael effaith andwyol ar eu perfformiad.

Byddai system o'r fath hefyd yn anghyson â'r system y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i bennu Grantiau Dysgu'r Cynulliad i fyfyrwyr dros 18 oed, sy'n seiliedig ar brawf modd.

**Rydym yn cydymdeimlo ag amgylchiadau personol y prif ddeisebwr nad yw'n cael cymorth ariannol gan ei rhieni i barhau â'i hastudiaethau, ac rydym yn ei chanmol am ei hymdrechion i newid y system drwy ddeisebu'r Cynulliad Cenedlaethol. Er hyn, gan fod yr adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig, rydym hefyd yn cydnabod y dylid cyfeirio'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg at y myfyrwyr hynny sy'n dod o'r teuluoedd sydd â'r incwm isaf. Nid ydym, gan hynny, yn cefnogi'r cais i'r Lwfans gael ei wasgaru'n denau i gynnwys pawb, a chredwn y dylid ei dargedu'n effeithiol i wneud y gwahaniaeth mwyaf.**

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd bresennol, rydym yn rhagweld y bydd rhagor o bobl yn debygol o hawlio lwfans ceisio gwaith a budd-dal diweithdra, ac y bydd hynny, yn ei dro yn effeithio ar broffil y myfyrwyr hynny sy'n gwneud cais am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu digon o adnoddau i ymateb i'r cynnydd tebygol yn y galw - o ran nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais am y Lwfans a'r pwysau ychwanegol ar y gyllideb a fydd ar gael.**

**Gwella'r cynllun**

Daeth i'n sylw bod anghysonderau yn y Lwfans Ceisio Gwaith fel y mae ar hyn o bryd.

Mae rhai teuluoedd yn cael incwm ychwanegol nad yw'n cael ei ystyried wrth benderfynu a yw'r myfyriwr yn gymwys i gael y Lwfans; ymddengys hefyd fod angen mwy o hyblygrwydd yn achos gefeilliaid nad ydynt yn cael cyfran gyfartal o incwm y teulu; sefyllfa sy'n ymddangos yn annheg i ni.

**Credwn y dylid ceisio unioni'r anghysonderau yn y broses o gyfrifo incwm teuluoedd i ddileu unrhyw annhegwch yn y system.**

Clywsom gan y Gweinidog fod manteision i'r cynllun sydd gennym yng Nghymru o'i gymharu â'r cynllun a weithredir yng ngwledydd eraill y DU (fel codi lefel yr incwm cymhwyso bob blwyddyn) ond, er hyn, teimlai y byddai'n fuddiol edrych ar y sefyllfa yn yr Alban lle mae'r llywodraeth yno ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch newid y cynllun cynhaliaeth addysg. Er enghraifft, mae'r Alban yn ystyried a ddylid parhau â'r taliadau o £20 a £10 gan eu bod, i bob golwg, yn cael llai o effaith ar deuluoedd sydd â'r lefelau incwm perthnasol, a defnyddio'r arian mewn gwahanol ffyrdd i annog pobl ifanc i ddilyn cyrsiau addysg neu hyfforddiant neu i wobrwyo ymroddiad neu berfformiad addysgol da.

Credai'r Gweinidog hefyd fod achos cryf o blaid ystyried ffyrdd o dargedu meysydd galwedigaethol penodol ac roedd yn barod i drafod rhai posibiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y cam nesaf yn y broses werthuso.

**Rydym yn croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg ac yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal proses werthuso drylwyr er mwyn ei galluogi i ddefnyddio'i phwerau ymyrryd i sicrhau ei bod yn haws i fyfyrwyr lwyddo mewn pynciau penodol.**

**Oedi cyn talu**

Clywsom y bu oedi cyn talu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg i lawer o fyfyrwyr ym mis Hydref 2008 gan effeithio'n arw ar eu gallu i barhau â'u hastudiaethau ac roedd hyn yn peri pryder i ni.

Er bod rhai colegau'n rhoi benthyciadau i fyfyrwyr drwy'r gronfa wrth gefn, roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y bu'n rhaid i rai myfyrwyr roi'r gorau i'w cyrsiau'n gyfan gwbl.

Clywsom gan lywodraeth Cymru fod dau reswm dros oedi cyn prosesu'r taliadau: newidiadau gweinyddol yn y system brosesu, ac effaith y problemau ehangach a gododd yn Lloegr ar ôl newid yr asiant cyflenwi, a'r trafferthion a gododd gyda gwefan a llinell gymorth yr asiant hwnnw.

**Rydym yn croesawu sylw'r Gweinidog na fydd unrhyw oedi annerbyniol "yn digwydd eto" gyda thaliadau'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

**a hyderwn fod systemau ar gael yn awr i sicrhau nad diffygion gweinyddol byth yn peryglu astudiaethau myfyrwyr.**

**Casgliadau**

Mae tlodi myfyrwyr a'r modd y mae hyn yn rhwystro pobl ifanc rhag dilyn cyrsiau addysg bellach wedi bod yn bwnc llosg erioed.

Gan hynny, rydym o'r farn bod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn hanfodol i alluogi pobl ifanc i fanteisio ar yr hyn a ystyrir yn gyffredinol sy'n hawl iddynt. Mae'n fuddsoddiad yng nghyfalaf addysgol Cymru.

Fe'n trawyd, fodd bynnag, gan y ffaith nad yw llwyddiant y cynllun, hyd yn hyn, wedi'i fonitro na'i werthuso'n drylwyr. Ymddengys bod tystiolaeth anecdotaidd o'i effaith, ond **rydym yn argymell y dylid cynnal adolygiad mwy trylwyr o effaith y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar berfformiad addysgol a chyrhaeddiad pobl ifanc Cymru.**

Er na fu modd i ni gefnogi dadl y ddeiseb i gyfrifo'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar sail enillion personol myfyrwyr yn hytrach nag incwm y teulu, **rydym yn canmol y prif ddeisebwr am lobïo'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn ei llongyfarch am ddefnyddio'r broses ddeisebu. Credwn fod hon yn enghraifft ardderchog o'r modd y gall pobl ifanc gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd**.